

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward Clywedog, Ysbyty Coffa Llandrindod

Dyddiad y gweithgarwch: 23 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ebrill 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Clywedog, Ysbyty Coffa Llandrindod fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r ward yn darparu gofal i oedolion hŷn ag anghenion gofal organig a swyddogaethol. Mae 10 o welyau ar y ward, er bod y nifer hwn wedi lleihau i naw yn ystod y pandemig oherwydd bod angen cadw un ystafell fel cyfleuster ynysu.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Gwasanaeth a Dirprwy Reolwr y Ward ar 23 Mawrth 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ystafell ddydd ar ddechrau pob bore er mwyn helpu i roi trefn ddyddiol iddynt. Roedd sawl ardal gymunedol arall hefyd ar gael i'r ward eu defnyddio, gan gynnwys ardal deledu, gardd ddiogel ac ystafell fwyta, y gellid ei defnyddio fel ystafell ymneilltuo pe byddai angen.

Gwelsom fod y cyfyngiadau ar ymweliadau a achoswyd gan y pandemig wedi bod yn anodd i'r cleifion a'u perthnasau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod ymweliadau â phwrpas wedi cael eu caniatáu, yn unol â chanllawiau diweddaraf Prif Swyddog Nyrsio Cymru. Gwnaed hyn drwy greu system trefnu ymwelwr, a sicrhau bod pob ymwelydd yn cael ei holi am symptomau ac yn cael cyfarpar diogelu personol (PPR) priodol cyn mynd i mewn i'r man cyfarfod dynodedig i ymwelwyr. Dywedwyd wrthym hefyd fod perthnasau wedi cael diweddariadau dyddiol pan oedd y pandemig ar ei waethaf, er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol ar adeg pan oedd cyfyngiadau pellach ar waith mewn perthynas ag ymweliadau.

Gwelsom fod nifer isel o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi ar y safle yn gyffredinol, ac na fu unrhyw achosion o atal yn gorfforol yn ystod y tri mis diwethaf. Roedd y safle yn rhoi pwyslais ar dechnegau llonyddu llafar, technegau tynnu sylw a thrwy ddarparu gweithgareddau ystyrlon i'r cleifion. Roedd yn gadarnhaol clywed bod hanes meddygol y cleifion yn cael ei nodi'n fanwl wrth dderbyn y claf, a bod y perthnasau yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses hon, er mwyn cadarnhau'r drefn sydd orau gan y claf a helpu'r staff i ddeall unrhyw sbardunau.

Gwelsom fod gosodiadau a ffitiadau gwrthglymu wedi cael eu gosod mewn un ystafell wely. Roedd asesiad risg gwrthglymu cynhwysfawr i ategu'r drefn hon. Fodd bynnag, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hyn ei adolygu bob blwyddyn.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig a'u bod yn cael eu cynnal ar ffurf rithwir, lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd hyn yn sicrhau y gellid parhau i ddiwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion.

Gwelsom fod cais diweddar am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS¹) hefyd

¹ Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y

wedi cael ei gyflwyno'n rhithwir, gan gynnwys perthnasau a'r claf yn y broses gymaint â phosibl. Mae hyn yn golygu y caiff hawliau'r claf eu diogelu drwy sicrhau y cynhelir asesiadau budd pennaf² mewn ffordd amserol.

Dywedodd rheolwyr y ward wrthym fod y trefniadau ar y ward wedi aros yn sefydlog yn gyffredinol drwy gydol y pandemig, gyda chleifion yn parhau i gael y lefelau gofynnol o ofal uniongyrchol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Dywedodd y staff wrthym fod rhai gwasanaethau (e.e. trin gwallt) wedi cael eu hoedi o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Er bod hyn wedi bod yn anodd i rai o'r cleifion, roedd y staff yn obeithiol y byddai'r gwasanaethau hyn yn aildechrau'n fuan.

Gwelsom fod cysylltiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol ehangach wedi parhau lle bynnag y bo'n bosibl, ond bu rhai anawsterau o bryd i'w gilydd wrth drefnu ymweliadau ar y safle gan bob gwasanaeth. Rydym yn cydnabod y bydd y pandemig wedi effeithio ar allu rhai gwasanaethau i ymgysylltu ar y safle. Fodd bynnag, cynghorir y bwrdd iechyd y dylid monitro ac adolygu'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a llesiant yn cael eu diwallu.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod y ward yn darparu gofal i oedolion hŷn ag anghenion gofal organig³ a swyddogaethol. Mae hyn yn golygu, ar adegau, y gall gofalu am y ddau grŵp penodol hyn o bobl hŷn arwain at ymddygiadau heriol neu rwystredigaeth rhwng cleifion. Mae defnyddio cilfannau sy'n cynnwys dau neu dri gwely, yn hytrach nag ystafelloedd sengl i gleifion, yn ychwanegu at y broblem.

Esboniodd y rheolwyr wrthym y gallant weithio gyda'r cleifion i dawelu neu liniaru unrhyw rwystredigaethau neu ymddygiadau heriol yn llwyddiannus. Er hynny, ac fel y nodwyd yn ein hadroddiad arolygu blaenorol (2019), rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC am y ffordd orau y gall y safle ddiwallu anghenion y grwpiau hyn o gleifion yn y tymor byr a'r tymor hwy, yn benodol a yw defnyddio cilfannau ar gyfer cleifion ag anghenion organig a swyddogaethol yn hyrwyddo llesiant ac urddas y cleifion yn llawn.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid

² Nod asesiad budd pennaf yw penderfynu a yw unigolyn yn cael ei amddifadu o ryddid, neu a allai ddigwydd, ac os felly, a yw hyn er budd pennaf yr unigolyn dan sylw.

³Gall hyn gynnwys cyflyrau megis dementia neu glefyd Alzheimer.

Cafwyd y dystiolaeth ganlynol:

Ni fu unrhyw achosion o COVID-19 ar y safle tan ddiwedd 2020. Fodd bynnag, gwnaethom gadarnhau fod ymchwiliad gan y bwrdd iechyd yn mynd rhagddo, gan gynnwys dadansoddiad o wraidd y broblem, er mwyn ceisio cadarnhau beth a achosodd yr haint a helpu i ddysgu ohono.

Er gwaethaf hyn, cadarnhaodd rheolwyr y ward fod y nyrs gyswllt atal a rheoli heintiau wedi cynnig cymorth da drwy gydol y pandemig er mwyn adolygu a chynnal trefniadau atal a rheoli heintiau lleol. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod rheolwyr y ward wedi cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau a oedd wedi cael sgôr gadarnhaol ers yr achosion o'r haint, a'u bod wedi cyfleu'r canlyniadau i'r bwrdd iechyd drwy broses lywodraethu briodol.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth gyfredol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael ei chyfleu ar lafar i'r staff a bod y staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r fewnwyd ar gyfer polisiau a ffynonellau cymorth. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei dosbarthu drwy rowndiau ward dyddiol ac yn ystod cyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar wisgo a diosg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio a gwaredu PPE yn gywir. Cadarnhaodd y staff hefyd fod digonedd o PPE a chyflenwadau eraill, megis gel dwylo, ar gael.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 wedi cael ei chyfleu i'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth a'r perthnasau. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio system drefnu er mwyn rheoli'r nifer o ymwelwyr ar y safle, ynghyd â phosteri a sticeri i atgoffa'r staff a'r ymwelwyr bod angen cynnal arferion atal a rheoli heintiau da (e.e. hylendid dwylo a chadw pellter cymdeithasol).

Roedd yn gadarnhaol clywed bod y gwasanaeth wedi cydnabod yr anawsterau a wynebwyd gan gleifion â namau gwybyddol wrth ddeall a chynnal arferion atal a rheoli heintiau newydd, megis cadw pellter cymdeithasol, a'r peryglon baglu canfyddedig sy'n gysylltiedig â gosod sticeri ar y llawr. Dywedodd y staff wrthym fod posterï a sticeri wedi cael eu gosod yn ofalus o gwmpas y ward er mwyn sicrhau eu bod yn weladwy a bod y cleifion wedi cael cymorth caredig i'w helpu i ddeall. Dywedodd y staff wrthym ar y cyfan fod y cleifion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau hyn.

Gwelsom fod y ward wedi cymryd camau ychwanegol er mwyn helpu i atal lledaeniad COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag adran ystadau'r bwrdd iechyd i leihau achosion o gyswllt rhwng y staff domestig oedd yn dod i mewn i'r ward. Hefyd, roedd y mynedfeydd wedi'u cyfyngu, gan gynnwys defnyddio ffyrdd drwodd yn arwain i'r ward ac oddi yno mewn ymdrech i leihau nifer y bobl a oedd yn dod drwy'r ward yn ddiangen.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym y bydd pob claf yn cael ei brofi am COVID-19 cyn iddo gael ei dderbyn,

oni bai bod angen derbyn claf ar fyrder. Yn yr achos hwn, byddai'r claf yn ymgymryd â chyfnod o ynysu mewn un ystafell wely a ailddynodwyd at y diben hwn nes iddo gael canlyniad negatiff i brawf COVID-19. Fodd bynnag, gwelsom na fu hyn bob amser yn bosibl oherwydd cyflwr y claf (e.e. claf sy'n crwydro).

Er i ni weld bod yr asesiad risg amgylcheddol mewn perthynas â COVID-19 wedi nodi'r risg hon, roedd diffyg mesurau lliniaru wedi'u dogfennu yn yr asesiad i reoli a lleihau'r risg hon. Cynghorir y bwrdd iechyd y dylai adolygu a diweddarau'r asesiad risg.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaeth rheolwr y gwasanaeth ganmol ymrwymiad pob aelod o'r staff i weithredu fel tîm drwy gydol y pandemig er mwyn ceisio sicrhau bod anghenion gofal a llesiant y cleifion yn cael eu diwallu. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi'r pwyslais ar yr angen i reolwyr gael eu gweld ar y ward, yn enwedig drwy gydol y pandemig, lle gall pryderon y staff a'r cleifion waethygu.

Disgrifiodd rheolwyr y ward sut y maent yn sicrhau bod digon o staff ar y ward a bod y staff hynny yn meddu ar y cymysgedd sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys ystyried lefelau staff nyrsio diogel, y cymysgedd sgiliau presennol, asesiadau risg parhaus ar gyfer y cleifion a ffactorau eraill, megis cleifion sydd newydd gael eu derbyn y gall fod angen arsylwi arnynt yn amlach.

Gwnaethom gadarnhau bod proses briodol ar waith i uwchgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch staffio a gwelsom fod y staff yn gyfarwydd â sut i uwchgyfeirio pryderon ar lefel y ward ac ar lefel y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod achosion o salwch ac absenoldebau ymhlith y staff a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig wedi effeithio ar lefelau staffio ar y ward. Fodd bynnag, roedd y staff yn gallu disgrifio'r cymorth a'r oruchwyliaeth a gawsant gan y bwrdd iechyd wrth reoli'r sefyllfaoedd hyn, megis trefniadau i ddefnyddio staff banc neu staff asiantaeth ychwanegol. Roedd yn gadarnhaol nodi'r pwyslais ar ddefnyddio cronfa fach o staff banc, a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn gyfarwydd â nhw ac yn helpu i atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau asesiad risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu. Pwysleisiwyd hefyd wrthym y gallai'r staff gysylltu â rheolwyr y ward neu'r gwasanaeth ar unrhyw adeg pe bai angen unrhyw gymorth ychwanegol arnynt.

Cawsom yr ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod lefelau cymysg o gydymffurfio mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod COVID-19 wedi effeithio ar y meysydd hyfforddiant hyn o ganlyniad i ddiffyg opsiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym y byddai'r meysydd hyn yn cael blaenoriaeth pan fyddant ar gael.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Coffa Llandrindod

Ward: Ward Clywedog

Dyddiad y gweithgarwch: 23 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC am y ffordd orau y gall y safle ddiwallu anghenion y grwpiau hyn o gleifion [swyddogaethol ac organig] yn y tymor byr a'r tymor hwy, yn benodol a yw defnyddio cilfannau ar gyfer cleifion ag anghenion organig a swyddogaethol yn hyrwyddo llesiant ac urddas y cleifion yn llawn.	Safon 12 Yr Amgylchedd Rheoliad 26/40	Gohiriwyd gwaith ymgysylltu ar fodolau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion mewnol o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bydd y gwasanaeth iechyd meddwl yn dilyn y canllawiau cenedlaethol o ran bwrw ymlaen â'r gwaith hwn hyd nes y bydd yn bosibl ymgynghori'n llawn â'n cymunedau wyneb yn wyneb, er mwyn ystyried y ffordd orau ymlaen. Caiff risgiau i ddefnyddwyr gwasanaeth eu nodi, eu hasesu, eu	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl/ Anableddau Dysgu	Gweithdy gyda rhanddeiliaid yn hydref 2021 i lunio opsiynau patrwm gwelyau, gan gynnwys y posibilrwydd o wahanu anghenion clinigol er budd gofal

			<p>rheoli, eu cofnodi a'u hadolygu ar sail unigol drwy asesiad Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN).</p> <p>Cymerir camau angenrheidiol cyn gynted â phosibl i liniaru risgiau a diogelu llesiant pob claf unigol. Bydd Archwiliad o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth (CTP) yn nodi effeithiolrwydd hyn.</p> <p>Lle bynnag y bo modd, rydym yn ceisio sicrhau na chaiff cleifion ag anghenion swyddogaethol a chleifion ag anghenion organig eu rhoi yn yr un glifan.</p>		<p>cleifion. 31 Hydref 2021</p> <p>Cynhelir Archwiliad CTP bob blwyddyn a disgwylir i'r archwiliad nesaf gael ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr - Ionawr 2022</p>
2	<p>Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu a diweddarau ei asesiad(au) risg amgylcheddol / asesiad(au) risg yn ymwneud â COVID-19.</p>	<p>Safon 7 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol Rheoliad 15</p> <p>Safon 13 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi Rheoliad 9, 15</p> <p>Safon 22 - Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch Rheoliad 9,</p>	<p>Adolygwyd a diweddarwyd yr Aseiad Risg ar 12.04.2021</p> <p>Bydd angen adolygu'r Aseiad Risg Amgylcheddol nesaf ar 12 Hydref 2021 neu'n gynt os bydd unrhyw newidiadau yn ysgogi hyn.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaeth/ Pennaeth Gwasanaethau Gweithredol</p>	<p>Cwblhawyd</p>

		19, 26			
--	--	--------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Ruth Derrick, Pennaeth Nyrsio, Ansawdd a Diogelwch, Iechyd Meddwl

Dyddiad: 12 Ebrill 2021